ARCHIF MENYWOD CYMRU
WOMEN'S ARCHIVE OF WALES

NEWSLETTER - SEPTEMBER 2000

Vol 1: No. 3

Sorry for the long delay between newsletters. We have not been idle in the meantime, far from it, and this newsletter contains news of some of our progress.

ANNUAL EVENT AND AGM

Saturday, 21ST October 2000, at Cyfartha Castle, Merthyr Tydfil

Programme:
11-11.15 Coffee
11.15-12.15 AGM
12.15-1.15 Lunch*
1.15-2.30 **Deirdre Beddoe** - *Out of the Shadows* - writing the history of women in 20th-century Wales (talk and launch of her new book (University of Wales Press)
2.30-3.00 Tea and book signing
3.00→ Gwyneth Roberts - talk

Admission + tea/coffee free
*Booking form for lunch (£5.00) which must be booked in advance is on the back page of the newsletter

LOTTERY AWARD

It was announced at 1999 AGM, that the Archive had made a successful bid to the Heritage Lottery Fund, Small Grants Celebrating the Millennium, and received just under £5,000. It enabled us to take on a worker to develop aspects of the work of the Archive. We count ourselves extremely lucky that the post was accepted by Sue Gwyther, who began work in February this year, and worked for approximately three months. Sue's own report on her work is currently being prepared for printing, and will be available to members soon.

The steering committee wants to use this opportunity to thank Sue for the enthusiastic and effective way she took on the work. For us, the most important outcome has been that the Archive is now firmly established as collections of material deposited in record offices. Sue put in place systems for the transfer of pre-donated materials, and generated new donations through a great deal of effective publicity in print and broadcast media, and through personal contact with groups and individuals. A list of the deposited collections follows this item.

Sue also organised the re-launch of the Archive, and an exhibition from our collection of Menna Gallie papers, at the very successful and enjoyable Mamwlad 2000/Motherland 2000 conference at Trinity College Carmarthen in April, organised by Dr. Katie Gramich (see Report later).

The overall result has been increased membership, support from women's and community groups, many of who intend to deposit their records with the Archive, and greatly increased awareness of our activities throughout Wales.

We thank the Heritage Lottery Fund for the grant which made this possible. We plan to re-apply this year.

DEPOSITS OF MATERIAL

We now have an agreement with all the County Archives and Record Offices in Wales that they will accept material is the name of Archif Menywod Cymru/Women's Archive of Wales, and a slightly different agreement with the National Library of Wales.

The following collections have now been deposited:

Glamorgan Record Office, Cardiff

- Sonia Davies (a member of the Archif from its inception who sadly died last year - a few items have been given to the Archif)
- Ruth Osborn (WILPF material 1970-1996)
- Marjory Lewis (Greenham & women's peace movement)

West Glamorgan Archives, Swansea

- Deborah Checkland (WLM, 1970s/80s, Swansea)
- Jenny Lynn (WLM, 1970s Swansea)
- Ursula Masson (WLM 1970s/80s Swansea)
- Alison Scouller (WLM 1970s/80s Swansea)
- Denise Lavis (Greenham)
- Anonymous depositor (2 minute books of West Wales Labour Women's Advisory Committee, 1930s-1950s)

Carmarthen Record Office

- Val Thomas (WEA, NALGO etc)

National Library of Wales

- Anest Wiliam has deposited Menna Gallie collection, (personal letters and documents, working notes etc of major Welsh writer)

If you have any material to deposit, or know of any which you think we might want, please let us know. We will also be happy to provide more information on the deposit scheme.

★★★

Furthermore, the Women's Archive of Wales used the occasion of the conference to launch our new portable display panels, designed to publicise the work and objectives of the Archive. Also in the conference room was a most tempting bookstall provided by Honno, which did much to lighten our purses before the end of the weekend.

Turning to domestic matters, the accommodation, catering and friendly bar provided by Trinity College were excellent and created a warm and relaxed atmosphere, conducive to long and wide-ranging discussions over coffee in the dining room and drinks in the bar, to the deepening of old friendships and the developing of new ones. The fact that the conference lasted from Friday evening to Sunday afternoon allowed the dynamics of the event to develop in a very satisfactory way.

But it was the combination of all these elements which made Motherland 2000 such a special and celebratory event, and one which I, for one, very much hope will be repeated. Many people were involved in organising Motherland 2000, too many to list, but they all deserve a big 'Thank you'!

Jenny Sabine.

MEMBERSHIP RENEWAL

The Women's Archive of Wales needs your continued support

Membership is open to anyone who supports the aims of the AMC/WAW. As a member you will be kept informed of developments and be eligible to vote at general meetings. Organisations as well as individuals may join, appointing one person to attend meetings and vote on their behalf.

Membership subscriptions are due in December each year. More and more members are choosing to renew their membership by annual standing order, which helps us tremendously. If you would like to take advantage of this facility, please complete and return the enclosed renewal form. Alternatively, use the same form and send a cheque or postal order for one year's subscription.

Whichever method you choose, please rejoin us!

Contacts: Archif Menywod Cymru/Women's Archive of Wales, c/o Ursula Masson, School of Humanities, University of Glamorgan, Pontypridd, CF37 1DL, email umasson@glam.ac.uk
Deirdre Beddoe, Tel: 01446 730205, email d.beddoe@virgin.net
Jenny Sabine, Tel: 01792 874143 (after 6pm)
Avril Rolph, Tel: 01792 233482, email avril@rolph24.freeserve.co.uk

This newsletter was produced by Avril Rolph with contributions from Ursula Masson, Jenny Sabine and Tanwen Edwards. Translation by Catrin Stevens.

ARCHIF MENYWOD CYMRU/WOMEN'S ARCHIVE OF WALES

ANNUAL MEMBERSHIP RENEWAL FORM

I wish to renew my subscription to Archif Menywod Cymru/Women's Archive of Wales, from December 1st 2000
Individual Subscription £10/£5* low income, Organisations/Institutions £25

Name.....
Address.....
..... Postcode.....
Telephone..... Fax..... e-mail.....

INSTRUCTION TO BANK DATE----------

TO: (name and address of bank) ----------

..... Postcode.....
Account Number..... Account Name.....
Sort Code.....
I hereby request and authorise you to pay to Lloyds TSB, 1A Wellfield Road, Roath, Cardiff, to the account of ARCHIF MENYWOD CYMRU/WOMEN'S ARCHIVE OF WALES, sort code 30-92-07, account number 1542533, my annual subscription of £25/ £10/£5* on 1st December 2000, and thereafter on 1st December each year, and thereafter on the 1st December each year to debit the same amount to my account with your bank.
Please cancel any previous standing order in favour of the beneficiary named above under this reference.

Signature.....Full Name.....

Address.....

.....Postcode.....

*Delete as appropriate.
Return the form to Archif Menywod Cymru/Women's Archive of Wales, c/o Tanwen Edwards, School of Humanities and Social Sciences, University of Glamorgan, Pontypridd, CF37 1DL.

✂----------

ANNUAL EVENT AND AGM - 21ST OCTOBER 2000, CYFARTHA CASTLE, MERTHYR

I wish to book lunch (buffet, including quiche, assorted sandwiches, home-made cake and tea/coffee) at a cost of £5.00 and enclose cheque/postal order payable to Women's Archive of Wales.

Name..... Date.....

Return form with payment to Archif Menywod Cymru/Women's Archive of Wales, c/o Ursula Masson, School of Humanities and Social Sciences, University of Glamorgan, Pontypridd, CF37 1DL

ARCHIF MENYWOD CYMRU
WOMEN'S ARCHIVE OF WALES

CYLCHLYTHYR - MEDI 2000

Cyf. 1 : Rhif 3

Ymddiheuriadau am yr oedi hir rhwng cylchlythyron. Nid ydym wedi bod yn segur yn y cyfamser, i'r gwrthwyneb yn wir, ac mae'r cylchlythyr hwn yn sôn am rai agweddau ar ein cynnydd.

DIGWYDDIAD BLYNYDDOL A CHYFARFOD CYFFREDINOL BLYNYDDOL

Dydd Sadwrn, 21ain Hydref 2000, yng Nghastell Cyfarthfa, Merthyr Tydfil

Rhaglen :
11-11.15 Coffi
11.15-12.15 CCB
12.15-1.15 Cinio *
1.15-2.30 Deirdre Beddoe - *Out of the Shadows* (ysgrifennu hanes menywod yng Nghymru'r ugeinfed ganrif (sgwrs a lansio'i llyfr newydd (Gwasg Prifysgol Cymru))
2.30-3.00 Te a llofnodi llyfrau
3.00 Gwyneth Roberts

Mynediad a the/coffi yn rhad
*Mae'r ffurflen i archebu cinio (am £5.00) ar dudalen gefn y cylchlythyr. Rhaid archebu ymlaen llaw.

GRANT LOTERI

Cyhoeddwyd yng Nghyfarfod Blynyddol 1999 fod yr Archif wedi gwneud cais llwyddiannus i Gronfa Treftadaeth y Loteri, Grantiau Bach Dathlu'r Mileniwm a'i bod wedi derbyn ychydig dan £5000. Galluogodd hyn ni i gyflogi gweithwraig i ddatblygu agweddau ar waith yr Archif. Buom yn hynod ffodus fod Sue Gwyther wedi derbyn y swydd. Dechreuodd weithio ym mis Chwefror eleni a bu wrthi am tua thri mis. Mae adroddiad Sue ar ei gwaith yn cael ei baratoi ar gyfer ei argraffu ar hyn o bryd a bydd ar gael i aelodau cyn hir.
Mae'r pwyllgor llywio eisiau manteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i Sue am y modd brwdfrydig ac effeithiol y cyflawnodd y gwaith. I ni, y canlyniad pwysica ydy fod yr Archif bellach wedi'i sefydlu'n gadarn a bod casgliadau o ddefnyddiau wedi'u rhoi ar adnau mewn archifdai. Paratodd Sue systemau trosglwyddo defnyddiau a oedd eisoes mewn llaw a sicrhaodd roddion newydd trwy lawer o gyhoeddusrwydd effeithiol, trwy gyfrwng print a darllediadau, a thrwy gysylltiadau personol â grwpiau ac unigolion. Mae rhestr o'r casgliadau ar adnau yn dilyn yr eitem hon.
Yn ogystal trefnodd Sue ail-lansiad yr Archif, ac arddangosfa o gasgliad o bapurau Menna Gallie ar gyfer y gynhadledd lwyddiannus a difyr iawn, Mamwlad 2000/ Motherland 2000 yng Ngholeg y Drindod, Caerfyrddin, yn Ebrill, a drefnwyd gan Dr. Katie Gramich (gweler yr Adroddiad isod)
Canlyniad hyn i gyd oedd cynnydd yn yr aelodaeth; cefnogaeth gan grwpiau menywod yn y gymuned, y mae nifer ohonynt yn bwriadu rhoi eu harchifau ar adnau gyda'r Archif, ac llawer mwy o ymwybyddiaeth o'n gweithgareddau ledled Cymru.

Diolch i Gronfa Treftadaeth y Loteri am y grant a'n galluogodd i wneud hyn. Bwriadwn ail-gynnig am grant eleni.

DEFNYDDIAU AR ADNAU

Bellach mae gennym gytundeb â'r holl Archifdai Sirol eu bod yn fodlon derbyn defnyddiau yn enw Archif Menywod Cymru/Women's Archive of Wales, ac y mae cytundeb ychydig yn wahanol gyda Llyfrgell Genedlaethol Cymru.
Mae'r casgliadau isod bellach ar adnau:

Archifdy Morgannwg, Caerdydd

- Sonia Davies (aelod o'r Archif o'r dechrau a fu farw yn anffodus llynedd - rhoddwyd rhai eitemau i'r Archif)
- b.. Ruth Osborn (defnyddiau WILPF 1970-1996)
- Marjory Lewis (Greenham a'r mudiad menywod dros heddwch)

Archifdy Gorllewin Morgannwg, Abertawe

- Deborah Checkland (WLM, 1970egau/ 80egau, Abertawe)
- Jenny Lynn (WLM, 1970egau, Abertawe)
- Ursula Masson (WLM 1970egau/80egau, Abertawe)
- Alison Scouller (WLM 1970egau/80egau, Abertawe)
- Denise Lavis (Greenham)
- Adneuwr anhysbys (2 lyfr cofnodion Pwyllgor Ymgynghorol Menywod Llafur Gorllewin Cymru, 1930egau-1950egau)

Archifdy Sir Gaerfyrddin

- Val Thomas (Mudiad Addysg y Gweithwyr, NALGO a.y.y.b.)

Llyfrgell Genedlaethol Cymru

- Mae Anest Wiliam wedi rhoi casgliad Menna Gallie ar adnau, (llythyron a dogfennau preifat, nodiadau gwaith a.y.y.b. awdures Gymreig o bwys)

Os oes gennych unrhyw ddefnydd i'w roi ar adnau, neu os ydych yn gwybod am ddefnyddiau a fyddai o werth i ni, rhowch wybod. Byddem yn barod hefyd i roi rhagor o wybodaeth am y cynllun adneuo.

☆☆

CYNHADLEDD MAMWLAD 2000

Roedd gyrru i Gaerfyrddin yng ngolau gwyrdd clir gyda'r nos ym mis Ebrill yn ddechrau addawol i benwythnos cofiadwy. Bu Mamwlad 2000, y gynhadledd ar Hanes a Llenyddiaeth Menywod yn llwyddiant eithriadol mewn sawl ffordd.

Roedd y rhaglen yn cynnwys papurau gan haneswyr a llenorion feminyddol adnabyddus, pob un ohonynt yn ysgogi'r meddwl ac yn hygyrch i amrywiol ddidordebau'r cant a mwy o gynadleddwyr a oedd wedi ymgynnull yng Nghanolfan yr Haliwell, Coleg y Drindod, ac a oedd, gyda'i gilydd, yn rhoi arolwg o fywydau a llwyddiannau menywod yng Nghymru ar drothwy'r Mileniwm.
Ond roedd Mamwlad 2000 yn llawer mwy na chasgliad o bapurau academaidd a darlleniadau llenyddol. Roedd digon i bori ynddynt yn ystod yr egwyl rhwng papurau. Roedd yr arddangosfa o'r medalau a'r coronau llenyddol a enillwyd gan fenywod mewn Eisteddfodau Cenedlaethol ar hyd y blynyddoedd, yn ysbrydoli yn ogystal ag yn arddangosfa o wrthrychau hardd. Ychwanegwyd at y detholiad o ffotograffau a dogfennau o archif Menna Gallie, a drosglwyddwyd yn ddiweddar i AMC/WAW, gan fenthyciad o ddau bortread o Menna, gan roi dealltwriaeth well inni o fywyd yr

awdures Gymreig bwysig yma. At hyn defnyddiodd Archif Menywod Cymru'r cyfle i lansio ein paneli arddangos symudol newydd, a gynlluniwyd i hysbysebu gwaith ac amcanion yr Archif. Yn yr ystafell gynhadledd yn ogystal yr oedd stondin lyfrau ddeniadol iawn gan Honno, a wnaeth lawer i ysgafnhau'r pwrs cyn diwedd y penwythnos.

Gan droi at faterion domestig, roedd y llety, y bwyd a'r bar cyfeillgar a ddarparwyd gan Goleg y Drindod yn ardderchog a chrewyd awyrgylch gynnes ac ymlaciol, ffafriol i drafodaethau hir ac eang dros goffi yn yr ystafell fwyta a thros ddiod yn y bar, gan ddyfnhau hen gyfeillgarwch a rhoi cyfle i ddatblygu rhai newydd. Roedd y ffaith fod y gynhadledd yn para o nos Wener i brynhawn dydd Sul yn caniatau i ddeinamig y digwyddiad ddatblygu mewn modd hynod foddhaol.

Ond y cyfuniad o'r holl elfennau hyn a wnaeth Mamwlad 2000 yn ddigwyddiad mor arbennig a dathliadol, ac un y bydda i, beth bynnag, yn gobeithio a gaiff ei ail-adrodd. Roedd llawer o bobl wedi cynorthwyo i drefnu Mamwlad 2000, gormod i'w rhestru, ond maen nhw i gyd yn haeddu Diolch mawr iawn.

Jennie Sabine

AIL YMAELODI

Mae angen eich cefnogaeth barhaol ar yr Archif.

Mae aelodaeth yn agored i unrhywun sy'n cefnogi amcanion AMC/WAW. Fel aelod cewch eich hysbysu am ddatblygiadau a gallwch bleidleisio yn y cyfarfodydd cyffredinol. Gall sefydliadau yn ogystal ag unigolion ymuno, gan benodi un person i fynychu cyfarfodydd a phleidleisio ar eu rhan.

Dylid talu tâl aelodaeth ym mis Medi bob blwyddyn. Mae mwy a mwy o aelodau yn dewis ail-ymaelodi trwy archeb banc reolaidd, sy'n gymorth mawr i ni. Os hoffech gymryd mantais o'r cynnig hwn, llenwch y ffurflen ail-ymaelodi amgaeëdig a'i dychwelyd atom. Neu, defnyddiwch yr un ffurflen i anfon siec neu archeb bost am aelodaeth blwyddyn.

CYSYLLTAU: Archif Menywod Cymru/Women's Archive of Wales, c/o Ursula Masson, Ysgol y Dynoliaethau, Prifysgol Morgannwg, Pontypridd CF37 1DL, E-bost:umasson@glam.ac.uk
Deirdre Beddoe, Ffôn: 01446 730205, e-bost d.beddoe@virgin.net
Jenny Sabine, Ffôn: 01792 874143 (ar ôl 6.00 y.h)
Avril Rolph, Ffôn: 01792 233482, e-bost: avril@rolph24.freeserve.co.uk

Cynhyrchwyd y cylchlythyr hwn gan Avril Rolph gyda chyfraniadau gan Ursula Masson, Jenny Sabine a Tanwen Edwards. Cyfieithwyd gan Catrin Stevens.

ARCHIF MENYWOD CYMRU/WOMEN'S ARCHIVE OF WALES

FFURFLEN AIL-YMAELODI BLYNYDDOL

Dymunaf ail-ymaelodi gydag Archif Menywod Cymru/Women's Archive of Wales, o Rhagfyr 1af 2000
(Aelodaeth unigol £10/ £5* incwm isel, Sefydliadau/ Mudiadau £25)

Enw _____
Cyfeiriad _____
_____ Côd post_____
Ffôn _____ Ffacs _____ e-bost _____

CYFARWYDDIADAU I'R BANC DYDDIAD_____

AT: (enw a chyfeiriad y banc) _____
_____Côd post _____

Rhif Cyfrif _____ Enw'r cyfrif

Côd didoli _____
Rwyf yn gofyn ac yn caniatau i chi dalu Lloyds TSB, 1A Wellfield Rd, y Rhâth , Caerdydd, i gyfrif Archif Menywod Cymru/ Women's Archive of Wales, Côd didoli 30-92-07, rhif cyfrif 1542533, fy nhâl aelodaeth blynyddol o £10/£5* ar Ragfyr 1, 2000, ac yna drachefn ar Ragfyr 1af bob blwyddyn i ddebydu yr un swm i'm cyfrif gyda'ch banc. Dilewch unrhyw archeb banc reolaidd er budd y uchod o dan y cyfeirnod hwn.

Llofnod _____ Enw llawn _____
Cyfeiriad

_____
_____ Côd post
*Dileër fel bo'n briodol

Dychweler y ffurflen at Archif Menywod Cymru/ Women's Archive of Wales, c/o T. Edwards, Ysgol y Dyniaethau a Gwyddorau Cymdeithasol, Prifysgol Morgannwg, Pontypridd, CF31 1DL

✂----------

ANNUAL EVENT AND AGM: 21ST OCTOBER, CYFARTHA CASTLE, MERTHYR

Hoffwn archebu bwyd (bwffe yn cynnwys quiche, brechdanau amrywiol, teisen gartre, te/coffi; cost £5) ac rwyn amgau siec / archeb bost yn daladwy i Archif Menywod Cymru.

Enw _____ Dyddiad_____